ymgynghoriaeth wavehill consulting

Rhyfyn 1

Cylchlythyr y Gaeaf -*Plant a Phobl Ifanc*

Mae Wavehill yn arbenigo mewn **ymchwil cymdeithasol ar sail tystiolaeth** a **gwerthuso** a chysylltu gyda **phobl ifanc**, ac rydym yn gweithio ar draws y DU ac yn Ewrop.

Mae gennym **15 mlynedd o brofiad** o weithio gyda llywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol a phartneriaethau strategol a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae gan Wavehill swyddfeydd yn Llundain a gorllewin Cymru, ac mae gennym brofiad o weithio gyda phobl ifanc o fewn ardaloedd gwledig a threfol.

Mae gennym **dîm o 22 o** ymchwilwyr, ymgynghorwyr, a staff cymorth gan gynnwys tîm cyfweld mewnol hynod brofiadol a all gyflwyno arolygon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

GWEITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Mae Wavehill wedi bod yn gweithio o fewn ymchwil cymdeithasol a gwerthuso yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf ac mae gennym ddealltwriaeth wych o'r materion sy'n berthnasol i bobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi sicrhau dealltwriaeth gyflawn o'r heriau o gysylltu â phobl ifanc, ac rydym wedi dyfeisio nifer o dechnegau, yn benodol er mwyn cynnwys pobl ifanc a chasglu eu syniadau, gan roi'r rhyddid iddynt i fynegi'r safbwyntiau hyn yn wrthrychol ac yn annibynnol. Mae ymglymiad llawn pobl ifanc mewn ymchwil a gwerthusiad yn golygu bod ein hadroddiadau a'n hargymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn.

Fe gysylltodd Wavehill â phobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy o bob cwr o'r DU. Rydym wedi gwerthuso gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc megis, prosiectau Connexions, Pyrth Dysgu, Porth Ieuenctid (Gyrfa Cymru), Cronfa Pobl Ifanc, Cymorth, Neighbourhood Renewal Fund (NRF), a Single Regeneration Budget (SRB) ar draws y DU ac mae gennym bortffolio o ryw 50 o adolygiadau strategol a gwerthusiadau sy'n cynnwys pobl ifanc. Mae hyn yn rhoi cryfder a gweledigaeth unigryw i ni wrth ddatblygu ymarferion cysylltu.

Gyda swyddfeydd yng Ngorllewin Cymru mae gennym staff a all siarad Cymraeg ar lefelau ymgynghorwyr, ymchwilwyr a thîm cyfweld, gan sicrhau y gallwn gyflenwi'r tîm cywir ar gyfer prosiectau sy'n gofyn am ddwyieithrwydd llawn.

http://www.wavehill.com/whc/children-young-people.php

Cynnwys pobl Ifanc – SAVY!

Ar hyn o bryd mae Wavehill yn gwerthuso'r prosiect SAVY ym Mlaenau Gwent – prosiect i gysylltu pobl ifanc sydd wrth risg o ddod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fe wnaethom hyfforddi 10 o bobl ifanc mewn technegau arolygu ac ymgynghori er mwyn iddynt allu ein helpu i gasglu safbwyntiau eu cyfoedion. Trwy gynnwys pobl ifanc yn y gwerthusiad llwyddodd y tîm i sicrhau mewnwelediad i'r heriau y mae pobl ifanc anodd eu cyrraedd yn eu hwynebu. Dywedodd arweinydd y prosiect, Endaf Griffiths, '*Fe wnaeth ychwanegu rhywbeth arbennig at yr ymchwil ac roedd ansawdd y data y gwnaethom ei dderbyn yn wych.*'

Y DIWEDDARAF AR WAVEHILL

Yr ydym newydd lansio ein **gwefan ddwyieithog newydd** gyda Newyddion a gwybodaeth gyfredol ar ein gwasanaethau a meysydd arbenigol.

Mae'n bleser gennym hefyd groesawu **Endaf Griffiths, uwch ymgynghorydd newydd**, i ymuno â ni gyda 11 mlynedd o brofiad.

Mae ein **tîm arolwg ac ymchwil** wedi cynyddu i 12 aelod ac mae'n parhau i **godi safon ein hymchwil ar sail tystiolaeth**.



Newyddion Diweddaraf

- **Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru** (Strategaeth NEET) disgwylir ei lansio ym mis Ionawr 2009
- **Cydgyfeirio Blaenoriaeth 1:** Cyflenwi Sgiliau i Bobl Ifanc ar gyfer Dysgu a Chyflogaeth yn y Dyfodol – mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn mapio Datganiadau o Ddiddordeb ar hyn o bryd

Roedd y gwerthusiad yr ymgymerwyd ag ef gan Wavehill yn nodedig oherwydd ei broffesiynoliaeth, o'r dogfennau tendro cychwynnol yr holl ffordd hyd at gynhyrchu'r adroddiad terfynol – Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Dinas Abertawe

Prosiectau Diweddar

- **Gwerthusiad ledled y DU o Gronfa Pobl Ifanc y Gronfa Loteri Fawr**
- **Achub y Plant Cymru – Datblygu System Monitro Canlyniadau a Hyfforddi Staff**
- **'Ieuenctid yn Gyntaf' – Gwerthusiad ESF o Gynhwysiant Ieuenctid Arloesol Cyngor Sir Gâr**